

Edrych ar ragolygon y tywydd i wneud penderfyniadau busnes

1 Yn y gweithgaredd hwn rhaid i bobl ifanc ddefnyddio ystod o sgiliau pwysig i wneud penderfyniadau a all effeithio ar incwm busnes lleol pwysig. Gofynnwch i'r grŵp ffurfio parau. Yn y parau hyn byddant yn nodi ateb i her sy'n wynebu Neuadd Crewsdon.

2 Gofynnwch i'r grŵp ddychmygu eu bod yn Rheolwr Ystad yn Neuadd Crewsdon. Mae gan yr ystad dir helaeth, tir amaethyddol a neuadd hynafol a gerddi y gall y cyhoedd ymweld â nhw weithiau. Fel Rheolwr Ystad, maent yn defnyddio data tywydd yn rheolaidd i wneud penderfyniadau am weithgarwch ar yr ystâd, o bryd i gynaeafu cnydau i pan ydynt yn agor y gerddi i'r cyhoedd.

Eglurwch y bydd angen iddynt wneud penderfyniad ynglŷn â'r dyddiad gorau i agor gerddi Neuadd Crewsdon ar gyfer Diwrnod Tiwlipau. Bob blwyddyn, mae'r cyhoedd yn heidio i'r ystad ar un diwrnod i weld yr arddangosiadau tiwlip enwog yn y gwanwyn. Fodd bynnag, os yw'n rhy wlyb, mae perygl o ddifrodi'r tiroedd cain o amgylch y meysydd parcio cyhoeddus. Os yw'n rhy wyntog, mae perygl y gallai pobl gael eu hanafu gan goed neu ganghennau'n cwmpo. Yn y gorffennol, rydych chi wedi canfod nad yw pobl yn ymweld os yw'n rhy wlyb, gwyntog neu oer. Os nad yw pobl yn ymweld, yna ni fyddwch yn gwerthu digon o docynnau felly bydd eich incwm yn gostwng



15 munud




Gwaith grŵp



Taflen waith adroddiad tywydd

- 3** Bydd pob tîm yn defnyddio'r daflen waith adroddiadau tywydd (ar dudalen 3) i benderfynu pryd y dylai Diwrnod Tiwlipau fod. Dosbarthwch daflen waith adroddiadau tywydd i'r grwpiau (ar dudalen 3) a gofynnwch iddynt ddarllen yr adroddiadau ar gyfer pob diwrnod ac ysgrifennu yn y golofn olaf os ydynt yn credu y byddai'r dyddiad yn un da i agor Neuadd Crewsdon ai peidio. Rhowch oddeutu 10 munud iddynt benderfynu pa ddyddiad y byddent yn ei ddewis.
- 4** Gofynnwch i bob pâr enwebu rhywun i ysgrifennu'r dyddiad y maent wedi'i ddewis ar y bwrdd gwyn a rhannu rheswm pam maent wedi penderfynu mai dyna oedd y dyddiad gorau.
- 5** Ar ôl i'r holl dimau ysgrifennu eu dyddiad dewisedig, datgelwch mai'r dyddiad gorau yw dydd Sadwrn 14 Mai. Mae hynny oherwydd y bydd yn ddiwrnod cynnes heb law, ac awel ysgafn. Mae'n golygu y bydd pobl yn debygol o ddod ar y diwrnod hwnnw ac ni fydd y tiroedd o amgylch y meysydd parcio cyhoeddus yn cael eu difrodi. Llongyfarchwch y parau a ddewisodd yn dda.
- 6** Gorffennwch y gweithgaredd trwy rannu'r ffaith bod y tywydd yn chwarae rôl amlwg mewn llawer o swyddi a bod llawer o fusnesau a sefydliadau'n dibynnu ar ddata ac adroddiadau'r Swyddfa Dywydd i wneud penderfyniadau pwysig. A allant feddwl am unrhyw fusnesau eraill a allai ddefnyddio rhagolygon tywydd i'w helpu i wneud penderfyniadau?



Taflen waith adroddiad tywydd

Dyddiad	Tymheredd uchaf	Dyddodiad	Gwynt	A fyddai'n ddiwrnod da i agor?	Pam?
Dydd Gwener 6^{ed} Mai	16°C	Sych yn y bore, cawodydd yn hwyrach yn y dydd yn troi'n drymach dros nos	Perygl o wynt cryf yn y prynhawn	<input type="checkbox"/> Le <input type="checkbox"/> Na	
Dydd Sadwrn 7^{fed} Mai	15°C	Glaw trwm yn y bore a chymylog y rhan fwyaf o'r prynhawn	Gwynt ysgafn trwy gydol y dydd	<input type="checkbox"/> Le <input type="checkbox"/> Na	
Dydd Sul 8^{fed} Mai	22 °C	Diwrnod heulog gyda thymheredd uwch na'r cyfartaledd, risg o stormydd meltt a tharanau ar ôl cinio	Gwyntoedd cryf iawn yn gysylltiedig â stormydd meltt a tharanau	<input type="checkbox"/> Le <input type="checkbox"/> Na	
Dydd Gwener 13^{eg} Mai	18 °C	Perygl o law trwm yn y bore a gallai cawodydd gwasgaredig ddatblygu yn y prynhawn	Gwynt ysgafn trwy gydol y dydd	<input type="checkbox"/> Le <input type="checkbox"/> Na	
Dydd Sadwrn 14^{fed} Mai	20°C	Sych ar y cyfan gyda chyfnodau o heulwen desog	Efallai y bydd awel ysgafn yn datblygu yn y prynhawn	<input type="checkbox"/> Le <input type="checkbox"/> Na	
Dydd Sul 15^{fed} Mai	15°C	Cymylog yn y bore, gyda pherygl o genllysg yn y prynhawn	Efallai y bydd gwyntoedd cryfion yn datblygu yn y prynhawn	<input type="checkbox"/> Le <input type="checkbox"/> Na	